# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 28 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 29 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 5 Ebrill 2023 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago – Aelod Cabinet Tai

**PWNC**
Prydlesu Swyddfa ym Mharc Busnes Llanelwy ar ran Chwaraeon Gogledd Cymru

**PENDERFYNIAD –**
Cymryd prydles o ofod Swyddfa o fewn Swyddfeyd Clwyd Alun yn 72 Ffordd Wiliam Morgan, Parc Busnes Llanelwy ar ran Chwaraeon Gogledd Cymru, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 28.03.2023 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Prydlesu Swyddfa ym Mharc Busnes Llanelwy ar ran Chwaraeon Gogledd Cymru**

## Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

I gymryd prydles o ofod Swyddfa ofewn Swyddfeyd Clwyd Alun yn 72 Ffordd Wiliam Morgan, Parc Busnes Llanelwy ar ran Chwaraeon Gogledd Cymru, a hyny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

## Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Caffael gofod swyddfa ar gyfer staff Chwaraeon Gogledd Cymru

## Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Mae Cyngor Gwynedd wedi ei adnabod fel  Awdurdod Lletyol i Chwaraeon Gogledd Cymru yn y Cytundeb sydd wedi ei lunio rhwng Awdurodau'r Bartneriaeth dyddiedig y 1af o Ebrill 2021.

Mae angen wedi ei adnabod am ofod swyddfa ar gyfer Staff Chwaraeon Gogledd Cymru. Yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Dachwedd, 2022 penderfynodd Bwrdd Chwaraeon Gogledd Cymru gefnogi'r bwriad i leoli staff i Swyddfeyd Clwyd Alun yn 72 Ffordd Wiliam Morgan, Parc Busnes Llanelwy. Mae'n lleoliad cyfleus, a chanolog i'r rhanbarth.

Yn yr achos yma bydd Cyngor Gwynedd fel awdurdod lletyol yn dal y brydles ar ran Chwaraeon Gogledd Cymru, ond fe ariennir yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r brydles yn

gyfan gwbl o gyllideb Chwaraeon Gogledd Cymru, a ddyrenir i Chwaraeon Cymru gan Llywodraeth Cymru.

Nid oes bwriad i dalu mwy na rhent y farchnad am y swyddfa.

## Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Dim

## Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Dim

Prif Swyddog Cyllid – “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro – “Mae’r adroddiad yn cynrychioli gweithredu gan Gyngor Gwynedd yn ei rôl fel Awdurdod Lletya. Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

Aelod/au Lleol – Nid yw’n fater lleol